**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2014 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

PRESENNOL

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Simmons | Cyngor Sir Ddinbych |
| O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| R Wright | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Halstead a K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); C Dingle (Rheolwr Cyllid); R Price (Swyddfa Archwilio Cymru); V Stevens (KPMG); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |

Swyddogion

| | |
|---|---|
| C Everett | Clerc a Swyddog Monitro |
| K Finch | Trysorydd |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION

2.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2014 i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod diwethaf.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd dim materion yn codi.

4 AMLINELLIAD O'R ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL

4.1 Cyflwynodd V Stevens o KPMG y ddogfen amlinelliad o'r archwiliad ariannol blynyddol i'r Aelodau. Caiff yr amlinelliad ei lunio bob blwyddyn er mwyn bodloni gofynion y safonau archwilio a'r arferion archwilio priodol, ac mae hefyd yn rhoi crynodeb i'r Awdurdod o'r gwaith archwilio sydd ei angen ar gyfer datganiadau ariannol 2013-14.

4.2 Cafodd yr Aelodau wybod am y prif feysydd sy'n cael eu hystyried gan KPMG. Cadarnhawyd y bydd KPMG yn cael cysylltiad â'r Archwiliad Mewnol i sicrhau nad oes gwaith yn cael ddyblygu, a bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd yn unol â'r amserlen a nodir yn y ddogfen.

4.3 Nodwyd y bydd cynnydd bychan yn y ffi oherwydd pwysau chwyddiant, a chytunwyd ar hyn gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Tân. Petai mater brys yn codi yn ystod y flwyddyn pan fo angen deuddydd neu dridiau o waith gan KPMG, yna byddai ffi ychwanegol am y dyddiau hynny.

4.4 Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau am y ddogfen cyn symud ymlaen i wneud penderfyniad.

4.5 **PENDERFYNWYD nodi dogfen amlinellol yr archwiliad ariannol blynyddol.**

5 GWAITH A FFIOEDD ARCHWILIO PERFFORMIAD 2014-15

5.1 Cyflwynodd R Price o Swyddfa Archwilio Cymru lythyr y Swyddfa a oedd yn nodi'r gwaith a'r ffioedd archwilio perfformiad ar gyfer 2014-15.

5.2 Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio Cynllun Gwella'r Awdurdod, yr Asesiad o Berfformiad, rheolaeth ariannol, llywodraethu, a rheoli perfformiad. Hefyd, mae'r Swydda'n bwriadu cynnal astudiaethau Llywodraeth Leol (gan gynnwys awdurdodau tân ac achub) ar y pynciau canlynol: "cyflawni â llai", a fydd yn golygu astudiaeth yn olrhain lefelau buddsoddiad mewn gwasanaethau tân ac achub dros y blynyddoedd diweddar, a chrynodeb o'r sefyllfa ariannol i roi darlun o'r sefyllfa yng Nghymru gyfan o ran cydnerthedd ariannol.

5.3 I ymateb i bryder un o'r aelodau am brosiectau sy'n derbyn arian grant, megis menter y Ffenics, cadarnhaodd Mr Price y bydd y prosiectau hyn a'u canlyniadau cadarnhaol yn cael eu trafod yn yr adroddiad gwella blynyddol sydd i gael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol. Dywedodd y DBST y byddai o fudd i'r Awdurdod petai Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu edrych ar yr holl fentrau ataliol a diogelwch cymunedol, a chyfrifo faint o arian a arbedwyd i'r sector cyhoeddus yn ei gyfranrwydd drwy'r mentrau hyn.

5.4 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys y llythyr, ac mai £15,292 fydd y ffioedd am y gwaith a nodir uchod, gydag amod y bydd ffi ychwanegol o bosibl os bydd angen rhagor o waith.**

6 Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

6.1 Cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei gyflwyno i'r aelodau i gael eu sylwadau cyn iddo gael ei gyflwyno o fewn y ddogfen gyflawn o gyfrifon. Mae'r Datganiad yn ffordd o adrodd yn gyhoeddus i ba raddau y mae Awdurdod yn cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol ei hun.

6.2 Rhoddodd y Rheolwr Cyllid gyflwyniad am bob egwyddor o'r Datganiad, a sut y mae'r Awdurdod wedi monitro pa mor effeithiol yw ei drefniadau llywodraethu. Mae'r Archwilio Mewnol hefyd wedi archwilio'r trefniadau llywodraethu, ac wedi gwneud argymhellion a fydd yn rhan o gamau gweithredu'r Awdurdod i sicrhau ei fod yn cynnal ei drefniadau llywodraethu ac yn eu gwella'n barhaus.

6.3 Diolchodd yr Aelodau i'r Rheolwr Cyllid am y cyflwyniad manwl, ac atebwyd ymholiadau'r aelodau gan y swyddogion. Awgrymodd y Cyng. G Lowe y dylai'r strategaeth ymgynghori ganolbwyntio ar ymgynghori gyda'r gymuned a mynd allan i gyfarfod cynghorau cymuned i dynnu sylw at y gwaith y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud yn y gymuned, a phwysigrwydd hynny. Esboniodd y DBST y rhoddir ystyriaeth i hynny, ac y bydd yr Aelodau'n cael cyfle i drafod materion yr ymgynghoriad ymhellach yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin.

6.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Corfforaethol 2013-14.**

7 PERFFORMIAD ARIANNOL 2013-14

7.1 Cyflwynodd Sandra Forrest yr adroddiad, ynghyd â chyflwyniad a oedd yn rhoi trosolwg o berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2013-14. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar yr adroddiadau ariannol, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub ar sail unrhyw ganfyddiadau a wneir.

7.2 Atgoffwyd yr Aelodau mai 2013-14 oedd blwyddyn olaf strategaeth 3 blynedd, gyda £2.4 miliwn neu 7.5% o'r gyllideb yn darged arbedion dros y tair blynedd. Bu'r strategaeth yn llwyddiant, a chyrhaeddwyd y targed arbedion, yn bennaf drwy newid arferion gweithio yn y Gwasanaeth a gostwng nifer y swyddi yn y Gwasanaeth drwyddo draw.

7.3 Cafodd yr Aelodau drosolwg o'r prif feysydd lle bu amrywiannau o'u cymharu â'r gyllideb. Atgoffwyd yr Aelodau fod yr Awdurdod wedi cytuno eisoes i ddefnyddio'r tanwariant i ariannu'r rhaglen gyfalaf er mwyn lleihau ffioedd dyledion yn y blynyddoedd i ddod. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y diweddaraf am hawliad diffoddwyr tân y system RDS i gael mynediad ôl-weithredol i gynllun pensiwn y diffoddwyr tân, roedd y trafodaethau wedi dod i ben, a chanfu asesiad pellach o'r ymrwymiad na fyddai'r ddarpariaeth gyfredol, sef £300k, yn ddigon i ymorol am yr ymrwymiad felly byddai angen defnyddio rhywfaint o'r tanwariant i ariannu'r hawliad.

7.4 Gan nodi'r gorwariant ar y gyllideb bensiynau yn bennaf oherwydd ymddeoliadau ar sail afiechyd yn ystod y flwyddyn, gofynnodd y Cadeirydd sut roedd y Gwasanaeth yn monitro absenoldeb salwch gweithwyr; cytunwyd y byddai adroddiad yn dod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio i roi manylion y gwaith a wneir i ymdrin ag absenoldeb salwch.

7.5 Gofynnodd y Cyng. Dunbar am ganlyniadau'r ffaith fod grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn dod i ben neu'n cael eu cwtogi, ac esboniodd y DBST fod nifer o risgiau yn hyn o beth a bod y swyddogion yn trafod y materion gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, a chaiff yr Aelodau wybod beth sy'n digwydd.

7.6 Nododd yr Aelodau wybodaeth am gronfeydd sydd gan yr Awdurdod wrth gefn, ac mai doeth yw cadw cronfa gyffredinol i'w defnyddio yn erbyn cyllideb eleni ac i ymorol am unrhyw ymrwymiadau amodol a allai godi. Roedd y Pwyllgor Archwilio eisoes wedi gofyn am neilltuo £100k i 'gronfa log', a chan nad yw'r cyfraddau llog wedi codi, ni ddefnyddiwyd hon. Argymhellwyd sefydlu 'cronfa gyfalaf' i ariannu'r rhaglen gyfalaf pan fo'n fwyaf manteisiol gwneud hynny, er mwyn gwneud y gorau o'r arbedion a wneir drwy leihau ffioedd dyledion ar gyfer cyllidebau'r dyfodol.

7.7 Mae'r Awdurdod yn gallu dal darpariaethau, ac mae ganddo'r darpariaethau a ganlyn:

- darpariaeth bensiynau i ymorol am ymddeoliadau ar sail afiechyd, a thaliadau lwmpswm cysylltiol nad ydynt yn dod dan y cynllun pensiwn.
- darpariaeth ar gyfer ôl-daliadau i ddiffoddwyr tân y system RDS – cafodd y rhan fwyaf o setliad yr ôl-daliadau ei wneud yn 2013-14, ond mae disgwyl rhai hawliadau eto yn 2014-15.
- hawliad ôl-weithredol am bensiynau, sydd wedi codi i £636k er mwyn ateb yr holl ymrwymiadau.

7.8 Y llynedd, roedd gan yr Awdurdod ddarpariaeth hefyd i ymdrin ag unrhyw ffioedd ar gyfer prosiect Wrecsam nad oedd modd eu dyrannu o'r rhaglen gyfalaf. Gan fod y prosiect wedi symud yn ei flaen erbyn hyn, nid oes angen y ddarpariaeth mwyach ac argymhellir trosglwyddo balans y ddarpariaeth i'r gronfa gyfalaf y cyfeirir ati uchod.

7.9 Ar ôl cael y cyflwyniad a gofyn cwestiynau i'r swyddogion, **PENDERFYNWYD argymell y canlynol i'r Awdurdod Tân ac Achub:**

**(i) trosglwyddo'r tanwariant i'r Cronfeydd a'r Darpariaethau fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| Cronfa Gyfalaf –<br>i ariannu'r rhaglen gyfalaf er mwyn lleihau ffioedd dyledion yn y dyfodol | £1,000,000 |
| Darpariaeth Bensiynau RDS –<br>i'w defnyddio yn erbyn yr ymrwymiadau gan fod y trafodaethau wedi dod i ben erbyn hyn | £336,358 |

**(ii) trosglwyddo rhwng y Cronfeydd a'r Darpariaethau fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| Darpariaeth Ffioedd Wrecsam – dim ei hangen mwyach – ei throsglwyddo i'r Gronfa Gyfalaf | £880,400 |
| Cronfa a Glustnodwyd 2013-14 – gwariant a ariennir o'r refeniw – ei throsglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol | £116,000 |

8 GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS 2013-2014

8.1 Mae adroddiad blynyddol y trysorlys yn un o ofynion gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod. Mae'n nodi gweithgarwch y trysorlys a gwir Ddangosyddion Darbodus 2013-2014 yn unol â gofynion y Cod Darbodus. Tasg y Pwyllgor Archwilio yw sicrhau y creffir yn effeithiol ar strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân yn seiliedig ar eu canfyddiadau.

8.2 Rhoddodd Sandra Forrest gyflwyniad manwl i helaethu ar yr wybodaeth: Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Economi, Gweithgarwch Benthyca, Gweithgarwch Buddsoddi a Dangosyddion Darbodus.

8.3 Yn gryno, cadarnhawyd y canlynol:

- mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol sy'n cyfyngu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'i weithgarwch rheoli'r trysorlys;
- o ran buddsoddiad, y flaenoriaeth oedd diogelwch, yna hylifedd, yna arenillion;
- mae'r gwariant cyfalaf a wneir gan yr Awdurdod yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy, fel y dangosir gan y dangosyddion ariannol a'r costau cyllido cyfalaf.

8.4 **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub fod gwir Ddangosyddion Darbodus 2013-2014 yn cael eu cymeradwyo.**

9 DATGANIAD O SICRWYDD YR ARCHWILIAD MEWNOL BLYNYDDOL 2013/14

9.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno fel rhan o'r gofyniad blynyddol ar yr Awdurdod i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei system Rheolaeth Fewnol.

9.2 Roedd yr Archwilio Mewnol wedi archwilio gorsafoedd tân y system RDS yng Nghonwy a De Gwynedd, incwm GTAGC, llywodraethu corfforaethol a'r fenter twyll genedlaethol. Er bod rhai argymhellion bychain wedi ei gwneud, roedd barn yr archwiliad am bob maes gwaith wedi cael graddiad sicrwydd uchel. Nodwyd y byddai Archwilio Mewnol yn gwirio yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod pob argymhelliad wedi ei ddilyn.

9.3 Roedd yr Archwilydd Mewnol wedi ei fodloni bod y gwaith archwilio mewnol a wnaed, ynghyd â'r wybodaeth gynaliedig o'r sefydliad a'i weithdrefnau, yn caniatáu i ddod i gasgliad rhesymol ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau ATAGC ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu. Roedd gan ATAGC brosesau boddhaol ar gyfer rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol er mwyn rheoli'r modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei amcanion. Er hynny, nodwyd na all y sicrwydd fod yn un gwbl lwyr wrth roi barn ar yr archwiliad; ni all y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ond

darparu sicrwydd rhesymol, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn honno, nad oes unrhyw wendidau o bwys heblaw'r rhai a ganfuwyd.

9.4 **PENDERFYNWYD y dylid derbyn datganiad o sicrwydd yr archwiliad mewnol, a'i ddefnyddio i gyfrannu at dystiolaeth a gynhwysir yn natganiad llywodraethu blynyddol 2013/14.**

10 CRYNODEB O WEITHGARWCH ARCHWILIO MEWNOL 2013/14 AC ASESIAD O ANGHENION A CHYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT 2014/15

10.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan Keith Williams o'r Adran Archwilio Mewnol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r gwaith archwilio mewnol yn 2013/14 a gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r asesiad o anghenion archwilio mewnol a chynllun archwilio mewnol drafft 2014/15.

10.2 Mae cylch gorchwyl yr Archwilio Mewnol wedi ei gynnwys yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y cyfnod rhwng 1af Ebrill 2011 a 31ain Mawrth 2015.

10.3 Roedd yr holl waith a oedd yn yr arfaeth ar gyfer 2013/14 wedi ei wneud heblaw am hyfforddi a datblygu staff, a oedd wedi cael ei ddisodli gan archwiliad o lywodraethu corfforaethol. Roedd y gwaith a oedd yn yr arfaeth ar gyfer 2014/15 yn cynnwys archwilio archwiliadau diogelwch tân yn y cartref; hyfforddi a datblygu staff, a'r gyflogres – dechreuwyr ac ymadawyr.

10.4 **PENDERFYNWYD**
**(i) nodi crynodeb o weithgarwch archwilio mewnol 2013/14;a**
**(ii) cymeradwyo'r asesiad o anghenion a'r cynllun archwilio mewnol drafft 2014/15.**

11 CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – GOFYNION LLYWODRAETHU NEWYDD

11.1 Rhoddodd y DBST wybod i'r aelodau am ofynion llywodraethu newydd y bydd angen eu cyflwyno o ganlyniad i Ddeddf Penisynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 o ran Cynlluniau Pensiynau'r Diffoddwyr Tân. O 1 Ebrill 2015 ymlaen, rhaid sefydlu bwrdd pensiynau newydd lleol, a bydd yn cynnwys nifer gyfartal o gynrychiolwyr o blith cyflogwyr a gweithwyr. Felly, bydd angen i'r Awdurdod enwebu hyd at dri aelod or Awudrdod Tân ac Achub i sefyll ar y bwrdd.

11.2 Teimlai'r Aelodau ei bod yn hanfodol i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio fod yn un o'r aelodau enwebedig o'r bwrdd pensiynau newydd.

11.3 **PENDERFYNWYD**
**(i) nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad;**
**(ii) enwebu Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio i fod yn aelod o'r bwrdd pensiynau newydd.**